**Pedwerydd Cyfarfod ar Ddeg o'r grŵp**
**Craflwyn, Nant Gwynant**
**8 Gorffennaf 2014**

**Presennol:** Charles Morgan (RSPB), Jan Sherry (Cyfoeth Naturiol Cymru), Mariecia Fraser (Prifysgol Aberystwyth), Sian Whitehead (Cyfoeth Naturiol Cymru) Steve Chambers (Llywodraeth Cymru), Dafydd Roberts (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri), Julia Korn (Cyfoeth Naturiol Cymru), Tracey Lovering (Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru), Joe Daggart (Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Peter Dennis (Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, Aberystwyth), John Farrar (Prifysgol Bangor), Amy Vanstone (RSPB), Martin Clift (RSPB).
**Ymddiheuriadau:** Bev Lewis (Ymddiriedolaeth Natur Brycheiniog), Simon Thorpe (Ymddiriedolaeth Grug), Peter Jones (Cyfoeth Naturiol Cymru), Helen Buckingham (Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Mike Jenkins (Cyfoeth Naturiol Cymru), Matthew Carroll (Myfyriwr PHD), Alison (Cyngor Ceredigion).

**1. Camau Gweithredu sy'n weddill o'r cyfarfod blaenorol**

a) Adolygiad o fframwaith yr ucheldiroedd:
Bydd JS/DR yn dechrau'r adolygiad, gan ganolbwyntio i ddechrau ar ardal Futurescapes (Gweunydd Gogledd Cymru) ac ardal Merywen Eryri. Cariwyd ymlaen
**Cam Gweithredu**: Bydd CM yn dosbarthu Cynllun Busnes Futurescapes ac yn ystyried sut i wella prosesau cyfathrebu.

b) Iechyd mynydd: Adroddiad terfynol wedi'i ddosbarthu gan JS
Bydd JS a SC yn cyfarfod i drafod sut i fwrw ymlaen â hyn

c) Rhaglen waith y Grŵp Ecosystemau Ucheldiroedd
Bydd CM yn adolygu'r rhaglen waith ac yn ei dosbarthu
Bydd y rhaglen waith yn eitem bwysig ar agenda'r cyfarfod nesaf a gaiff ei gynnal ar ôl lansio'r ymgynghoriad ynghylch y Cynllun Adfer Natur (a ddylai roi mwy o arweiniad).

ch) Bydd CM yn cysylltu â phrosiect Mynyddoedd Cambria i drafod gweithdy i'w gynnal ym mis Mai.
Mae'r cyhoeddiad ynghylch y Gronfa Byd Natur a Mynyddoedd Cambria fel Ardal Weithredu Byd Natur (yn ogystal ag eraill yn yr Ucheldiroedd) wedi disodli hyn. Bydd Grŵp yr Ucheldiroedd yn trafod ble y dylid cynnal y gweithdy rhanbarthol nesaf yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn pan fydd gwell dealltwriaeth o gydweithrediadau a gweithgareddau yn yr Ardaloedd Gweithredu Byd Natur.
**Cam Gweithredu**: Bydd CM yn cysylltu ag Alan Davies (Cyfoeth Naturiol Cymru) a Clive Faulkner (Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn) i drafod unrhyw syniadau ar gyfer y Gronfa Byd Natur yn yr ucheldiroedd.

**2. Y Dystiolaeth Ddiweddaraf**

Cam Gweithredu: Bydd JK yn gwahodd Peter Jones (Cyfoeth Naturiol Cymru) i annerch y cyfarfod nesaf am y Cynllun Gweithredu Mawndiroedd.

**UI – A yw pob arfer rheoli ucheldir cyfredol yn cynnal ansawdd y pridd?**
**Cynnig wedi'i gwblhau**

**U2 – Mae angen gwybodaeth fanylach ynglŷn â sut mae strwythur a chyfansoddid llystyfiant yn effeithio ar helaethrwydd adar ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn yn yr ucheldiroedd a sut y gellir troi canfyddiadau o'r fath yn ganllawiau rheoli.**
Swyddog Arweiniol – Sian Whitehead
Ymdrinnir â hyn yn rhannol yn y cyflwyniad heddiw ar waith Matthew Carroll a Dr Peter Dennis.

**U3 - A ellir adfer cynefinoedd ucheldiroedd drwy bori da byw yn unig neu a oes angen rheoli mecanyddol cyn pori?**
Swyddog Arweiniol – Charles Morgan gyda chymorth Mariecia Frazer
Yn mynd rhagddo

**U5 – A yw geneteg ecolegol yn darparu gwybodaeth a fydd yn ein helpu i ddeall yn well pa rywogaethau sydd fwyaf agored i niwed oherwydd darnio cynefinoedd a pha mor bwysig yw amrywioldeb genetig?**
Cam Gweithredu o'r cyfarfod blaenorol – bydd CM yn siarad â Trevor Dines er mwyn diffinio'n briodol flaenoriaeth y bwlch hwn mewn gwaith ymchwil a'i phennu?
Cam Gweithredu heddiw: Bydd CM yn trafod ymhellach â Barbara Jones (cyn-aelod o Gyngor Cefn Gwlad Cymru) sydd bellach yn aelod o Bwyllgor Cadwraeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
Angen eglurhad cyn y gwneir penderfyniad ar y cynnig

**U6 - Diffyg data pendant ar y ffactorau sy'n gyfrifol am ddirywiad y Cwtiad Aur a rhydyddion eraill yr ucheldir.**
Mae'n gysylltiedig ag U2 ac ymdrinnir ag ef yn rhannol yn y cyflwyniad heddiw.

**U8 – Mae angen dealltwriaeth gliriach o'r ffordd y gall rhyngweithio rhwng rheoli tir, megis pori gan lysysorion, newid y trothwy dyddodi nitrogen critigol ar gyfer cynefinoedd ucheldir sensitif a ddatblygir gan y Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur.** Simon Bareham yw'r swyddog arweiniol yn Cyfoeth Naturiol Cymru.
Mae'r prosiect yn cael ei gydgysylltu gan y Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur ar ran pedair gwlad y DU ac mae'n ystyried effeithiau dyddodi nitrogen ar gynefinoedd gwahanol. Gofynnwyd a oes modd cadarnhau pa nodweddion oedd o ganlyniad i ddyddodi nitrogen a pha rai oedd o ganlyniad i ffactorau eraill. Y Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur fydd yn paratoi'r adroddiad.
**Cam Gweithredu**: Bydd JS yn siarad â Simon Bareham ynglŷn â'r data ar nitrogen sy'n cael ei olchi ymaith ac yn aileirio'r bwlch hwn mewn gwaith ymchwil er mwyn adlewyrchu'n well yr angen i ystyried nitrogen sy'n cael ei olchi ymaith.
Roedd gwaith ymchwil arall a grybwyllwyd yn cynnwys yr Arbrawf a ailadroddwyd yn fyd-eang (Carly Stephens a gwaith ymchwil gan Stephanie McGovan a gynhaliwyd yn Eryri - 'Increased inorganic nitrogen leaching from a mountain grassland ecosystem following grazing removal: a hangover of past intensive land-use?'
**Cam Gweithredu**: Bydd PD yn dosbarthu'r ddolen i'r gwaith ymchwil byd-eang

Aros am adroddiad y Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur cyn penderfynu ar flaenoriaeth neu addasu geiriau
Nid oes angen cynnig ar hyn o bryd.

**U9 – Beth yw'r opsiynau gorau (yn economaidd ac yn amgylcheddol) ar gyfer gaeafu gwartheg mewn ardaloedd sydd â glawiad sy'n uwch na'r cyfartaledd? AILEIRIO**
Swyddog Arweiniol Charles Morgan gyda Mariecia Fraser
Mae angen aileirio cyn llunio'r cynnig - yn mynd rhagddo

**U10 – Faint o waith adfer coetir brodorol sydd ei angen yn yr ucheldiroedd a'u cyffiniau ac o ba ansawdd.**
Angen aileirio cyn pennu blaenoriaethau - John Farrar fydd yn arwain.

**U13 - Pennu rôl ysglyfaethu o ran cyfyngu ar ddwyseddau adar magu'r ucheldiroedd -** adolygad llenyddiaeth.
Swyddog Arweiniol – Sian Whitehead.
Gwnaed hyn o'r blaen ac mae dogfennau adolygu ar gael.
Nid oes angen cynnig

**U24 – Beth yw dewisiadau pori rhywogethau a bridiau o dda byw maes yn yr ucheldiroedd?**
Swyddog Arweiniol – Mariecia Fraser.
Cynnig wedi'i Gwblhau

**U26 – Beth yw'r addasiadau rheoli ucheldir allweddol sydd eu hangen o dan y senarios newid yn yr hinswdd cyfredol gorau.**
Bydd angen gwybod beth yw'r ffactorau na allwn eu rheoli er mwyn helpu i dargedu'r adnodd yn yr hirdymor.
**Swyddog Arweiniol John Farrar**
**Cynnig yn mynd rhagddo**

**Cam gweithredu cyffredinol a gariwyd ymlaen:** Bydd JK yn grwpio bylchau tebyg mewn tystiolaeth ynglŷn â rhydyddion yr ucheldir.
**Camau Gweithredu:** Bydd CM yn dosbarthu gwybodaeth am gynigion ymchwil yr RSPB

**3. Cronfa Byd Natur**

- **Partneriaeth yr Elenydd - RSPB**
- **Cwm Elan – ffermwr tenant**
- **Y Berwyn a'r Migneint – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**
- **Futurescapes Gogledd Cymru - RSPB**
- **Cam Gweithredu**: Bydd CM yn dosbarthu prosiectau RSPB sy'n berthnasol i'r Ucheldiroedd.

**4. CYFLWYNIAD**
**Dylanwadau hinsawdd, lleithder a draenio ar boblogaethau o'r Cwtiad Aur - Matthew Carrolll (Cyflwynwyd gan Dr Peter Dennis)**
**Darparwyd dogfen Powerpoint.**

**Cam Gweithredu: Bydd PD yn cadarnhau beth mae'r smotiau glas ar y map ar yr ail sleid yn ei gynrychioli**
**Cam Gweithredu**: Bydd PD yn cadarnhau a oes modd dosbarthu'r ddogfen powerpoint.

**Gwnaed y pwyntiau canlynol**

1. Roedd gan y model a ddefnyddiwyd lawiad is fel ffactor sbarduno.....cysylltiadau â chynhesu (cadarnhau pwynt JF
2. yn gysylltiedig â hynny ymddengys ei fod yn tybio y bydd patrymau newid yn yr hinsawdd a hinsawdd gynhesach yn arwain at gynefin sychach (corsydd ucheldir), y dybiaeth yw cynhesach + sychach. Esboniodd PD mai'r patrwm yw cyfnodau sychach, hwy ynghyd â chyfnodau byrrach o law trymach, felly amodau sychach yn gyffredinol.
3. Mae lleithder cynefin yn un ffactor, ond gallai ffactorau eraill sy'n deillio o dywydd eithafol gael effeithiau uniongyrchol e.e. o ran marwolaethau cywion.
4. Mae addasiadau micro-arbenigol i newid yn yr hinsawdd hefyd yn bwysig. Mae uchder a lleithder llystyfiant hefyd yn dibynnu ar strwythur llystyfiant.

**5. CYFLWYNIAD**
**Gwaith ymchwil diweddar a throsolygon o ffactorau sy'n effeithio ar rydyddion yr ucheldir/rhywogaethau o adar sy'n nythu ar y ddaear. Dr Peter Dennis**

**6. Y Wybodaeth Ddiweddaraf am waith yr RSPB ar y Cwtiad Aur**
Mae'r prosiect Ardaloedd Adar Ucheldir Pwysig yn rhoi fframwaith ar gyfer llywio gwaith rheoli rhywogaethau o adar sydd â blaenoriaeth ar bum safle ucheldir yng Nghymru (Mynydd Hiraethog, Rhiwabon, y Berwyn, y Migneint a'r Elenydd). Fel rhan o'r prosiect hwn, mae parthau rheoli i ganolbwyntio ar reoli'r cwtiad aur (yn seiliedig ar gofnodion bridio blaenorol, a chynefin addas) wedi cael eu llunio ar gyfer pob un o'r pum safle. Defnyddir y prosiect i hyrwyddo'r gwaith o reoli'r cwtiad aur yn briodol a monitro effeithiau'r gwaith rheoli drwy'r prosiectau/camau gweithredu canlynol:

- Rheoli'r cwtiad aur ar Riwabon: gweithio gyda thirfeddianwyr preifat a Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn ymgymryd â thorri gwair yn fecanyddol ar gyfer y cwtiad aur a'r gylfinir.
- Rheoli'r cwtiad aur ar Fynydd Hiraethog: prosiect wedi'i ariannu o dan y Gronfa Ecosystemau Gwydn, mewn partneriaeth ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Dŵr Cymru, gan weithio gyda'r gymdeithas tir comin, tirfeddianwyr a Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn ymgymryd â thorri gwair mecanyddol ar gyfer y cwtiad aur, a rhwystro ffosydd ar gyfer y gylfinir. Mae gwaith partneriaeth strategol wedi'i ariannu Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnwys gwaith arall sy'n ymwneud â'r Cwtiad Aur a gwaith gwella cyflwr gorgorsydd.
- Mae gwaith monitro'r cwtiad aur, gan ddefnyddio methodoleg O'Brien & Smith**,** ar gyfer arolygu rhydyddion yr ucheldir yn cael ei wneud ar y ddau safle.
- Mae gwaith monitro llystyfiant, yn sgil canllawiau Monitro Safonau Cyffredin a chyngor gan staff Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei wneud ar y ddau safle.

- Parhau i hyrwyddo’r gwaith o reoli’r cwtiad aur yn briodol, gan weithio gyda phartneriaid, o fewn y fframwaith IUBA a phob un o’r pum safle ucheldir.

Mae’r prosiect Ardaloedd Adar Ucheldir Pwysig yn rhoi fframwaith ar gyfer llywio gwaith rheoli rhywogaethau o adar sydd â blaenoriaeth ar bum safle ucheldir yng Nghymru (Mynydd Hiraethog, Rhiwabon, y Berwyn, y Migneint a’r Elenydd). Fel rhan o’r prosiect hwn, mae parthau rheoli i ganolbwyntio ar reoli’r cwtiad aur (yn seiliedig ar gofnodion bridio blaenorol, a chynefin addas) wedi cael eu llunio ar gyfer pob un o’r pum safle. Defnyddir y prosiect i hyrwyddo’r gwaith o reoli’r cwtiad aur yn briodol a monitro effeithiau’r gwaith rheoli drwy’r prosiectau/camau gweithredu canlynol:

- Rheoli’r cwtiad aur ar Riwabon: gweithio gyda thirfeddianwyr preifat a Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn ymgymryd â thorri gwair yn fecanyddol ar gyfer y cwtiad aur a’r gylfinir.
- Rheoli’r cwtiad aur ar Fynydd Hiraethog: Prosiect wedi’i ariannu gan REF, mewn partneriaeth ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Dŵr Cymru, gan weithio gyda’r gymdeithas tir comin, tirfeddianwyr a Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn ymgymryd â thorri gwair mecanyddol ar gyfer y cwtiad aur, a rhwystro ffosydd ar gyfer y gylfinir.
- Mae gwaith monitro’r cwtiad aur, gan ddefnyddio methodoleg Brown a Shepherd, ar gyfer arolygu rhydyddion yr ucheldir yn cael ei wneud ar y ddau safle.
- Mae gwaith monitro llystyfiant, yn sgil canllawiau Monitro Safonau Cyffredin a chyngor gan staff Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei wneud ar y ddau safle.
- Parhau i hyrwyddo’r gwaith o reoli’r cwtiad aur yn briodol, gan weithio gyda phartneriaid, o fewn y fframwaith IUBA a phob un o’r pum safle ucheldir.

**7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - CYFLWYNIADAU**
Cronfa Ecosystemau Gwydn - Prosiect Eryri a Mynydd Hiraethog – Gethin Davies
Cronfa Dreftadaeth y Loteri - Prosiect Partneriaeth Tirwedd - Carneddau ac Ogwen - Rhys Owen
Strategaeth Rhododendron – parhau i glirio Rhododendron – Carwyn ap Myrddin.

Ymweliad maes prynhawn i Fryn Bedd/Maes Ysguboriau, Castell a chopa Coed yr Eryr - clirio rhododendron, Llundy - rheoli gweundir a Chraflwyn - datblygu ynni dŵr.

Dyddiad y cyfarfod nesaf (I’w gadarnhau ym mis Tachwedd)
Lleoliad – Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, Aberystwyth.

**CYNLLUN ADFER NATUR - Gwybodaeth ychwanegol**
Mae Llywodraeth Cymru wrthi’n llunio’r Cynllun Adfer Natur, sef Strategaeth Fioamrywiaeth gyntaf Cymru. Bydd yn cynnwys y canlynol:

- Cynllun gweithredu lefel uchel a fydd yn cynnwys canlyniadau/amcanion a mesurau lefel uchel
- Cynllun Tystiolaeth

- Cynllun gwaith blynyddol
- Dogfen i’r cyhoedd
- Ynghyd â dogfennau eraill?

**Yr amserlen yw**

- Caiff y drafft nesaf o’r cynllun gweithredu lefel uchel ei ddosbarthu’n fuan i aelodau Bwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru
- Gorff 28 – ymgynghoriad ynghylch y cynllun gwaith blynyddol
- Canol Awst – Cymeradwyo’r dogfennau ymgynghori yn derfynol yn ystod Cyfarfod Bwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru
- Medi 10 – Lansio’r ymgynghoriad cyhoeddus gan y Gweinidog yng nghynhadledd y Bartneriaeth Bioamrywiaeth (am dri mis)
- Gwanwyn – Lansio’r Cynllun Adfer Natur

DRAFFT – F1 09 GORFFENNAF 2014